# Datganiad Llywodraethu Blynyddol

## Dogfen Amgaeedig 2



2024 - 2025

*Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg. Gweler y dudalen Saesneg ar ein gwefan.*
*This document is also available in English. See English page on our website.*

Dod o hyd i ni ar

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

# Beth yw pwrpas y ddogfen hon?

Mae'r ddogfen hon yn manylu ar ein hasesiad yn erbyn trefniadau Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor ac mae'n sôn am feysydd o arferion gorau a meysydd sydd angen gwelliant pellach. Mae'r ddogfen yn egluro:

- Beth yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol?
- Cymharu Effeithiolrwydd trefniadau Llywodraethu'r Cyngor
- Prif egwyddorion y trefniadau Llywodraethu Corfforaethol a'n datganiad:
  - **Egwyddor A** - Ymddwyn gyda chywirdeb, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith
  - **Egwyddor B** - Sicrhau bod y Cyngor yn agored a'i fod yn ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn drylwyr
  - **Egwyddor C** - Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy
  - **Egwyddor D** - Penderfynu ar yr ymyraethau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir cystal ag sy'n bosibl
  - **Egwyddor E** - Datblygu capasiti ein sefydliadau, gan gynnwys gallu'r arweinwyr a'r unigolion oddi mewn iddo
  - **Egwyddor F** - Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gryf
  - **Egwyddor G** - Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i ddarparu atebolrwydd effeithiol
- Sut yr ydym wedi mynd i'r afael â materion llywodraethu a strategol Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24
- Beth yw'r materion llywodraethu a nodwyd yn ystod 2024/25
- Beth yw'r materion strategol a nodwyd yn ystod 2024/25
- Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

# Beth yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol?

Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2018 yn mynnu ein bod yn paratoi datganiad ar reolaeth fewnol. Fel sawl awdurdod yng Nghymru, cyfeirir ato fel y 'Datganiad Llywodraethu Blynyddol'. Dogfen gyhoeddus yw hon sy'n nodi i ba raddau rydym ni fel Cyngor yn cydymffurfio â'n cod llywodraethu ein hunain.

Yn y ddogfen hon byddwn ni, y Cyngor yn:

- Cydnabod ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system lywodraethu gadarn mewn lle;
- Crynhoi elfennau allweddol y trefniadau llywodraethu a rolau'r rhai sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw'r amgylchedd llywodraethu;
- Disgrifio sut rydym wedi monitro a gwerthuso effeithlonrwydd ein trefniadau llywodraethu yn y flwyddyn, ac unrhyw newidiadau sydd wedi'u cynllunio yn y cyfnod i ddod;
- Rhoi manylion ar sut rydym wedi ymateb i unrhyw fater(ion) a nodwyd yn natganiad llywodraethu'r llynedd;
- Adrodd ar unrhyw fater llywodraethu a nodwyd o'r adolygiad hwn ac ymrwymo i fynd i'r afael â nhw; ac
- Wrth gyfeirio at y Cyngor, mae hyn yn cynnwys ei berthynas grŵp ag endidau eraill megis New Homes, Newydd a Gwella

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adrodd ar y trefniadau llywodraethu sydd wedi bod ar waith yng Nghyngor Sir y Fflint yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 ac mae wedi'i ddiweddaru hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

# Sicrwydd Annibynnol

## Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru

Mae'r Crynodeb Archwilio Blynyddol yn nodi'r gwaith archwilio a rheoleiddio sydd wedi'i wneud gan Archwilio Cymru mewn perthynas â Chyngor Sir y Fflint ers yr adroddiad blynyddol diwethaf a bydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2025. Ar y cyfan, daeth Archwilydd Cyffredinol Cymru i gasgliad cadarnhaol. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamwys, gwir a theg ar ddatganiadau ariannol y Cyngor ar 28 Tachwedd 2024, cyn y dyddiad cau y cytunwyd arno gyda Llywodraeth Cymru, sef 30 Tachwedd 2024. Mae'r adroddiad yn cadarnhau:

- Y paratowyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif y Cyngor yn unol â Chod Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a'r canllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol a'n gwybodaeth ynglŷn â'r Cyngor
- Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrif yn cadarnhau bod archwiliad cyfrifon 2023-24 wedi'i gwblhau.

## Barn Flynyddol Archwilio Mewnol

*"Ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2025, ar sail gwaith y mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r Archwilwyr Allanol wedi'i wneud, fy marn i yw bod gan Gyngor Sir y Fflint, ar y cyfan, fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol ddigonol ac effeithiol."*

## Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Mae'r Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu awdurdod. Maent yn darparu ffocws lefel uchel ac annibynnol ar ddigonolrwydd trefniadau llywodraethu, risg a rheoli'r Cyngor. Yn unol ag arferion gorau Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth mae'r Cyngor yn dwyn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gyfrif o ran y gwaith mae'n ei wneud. I gefnogi hyn cyflwynodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor ym mis Ionawr 2025, lle cadarnhaodd y Pwyllgor ei fod wedi ymgymryd â'i ddyletswyddau yn unol â'r cylch gorchwyl, wedi asesu eu heffeithiolrwydd ar wahân fel Pwyllgor ac wedi sefydlu cynllun gweithredu i gefnogi'r Pwyllgor, yr aelodau newydd a gwelliant parhaus.

# Datganiad y Prif Swyddog Cyllid ynghylch Cydymffurfiaeth â'r Cod Rheolaeth Ariannol

Mae Cod Rheolaeth Ariannol Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) (Cod RhA CIPFA) yn nodi'r egwyddorion a ddylai arwain awdurdodau wrth reoli eu cyllid. Cafodd ei lunio er mwyn cefnogi arferion da o ran rheolaeth ariannol a chynorthwyo awdurdodau lleol i arddangos eu cynaliadwyedd ariannol. Mae Cod RhA CIPFA yn nodi'r safonau penodol y dylai awdurdodau geisio eu cyflawni ar y lleiaf.

Mae'r Cod wedi'i seilio ar gyfres o egwyddorion yn cynnwys Datganiad Egwyddorion o Reolaeth Ariannol Dda CIPFA. Yr egwyddorion yma yw'r meincnodau er mwyn i'r awdurdodau fesur effeithiolrwydd eu rheolaeth ariannol a chynaliadwyedd er mwyn i awdurdodau allu:

- cadw rheolaeth ariannol ar gyllid awdurdod lleol yn y tymor byr, tymor canolig a'r tymor hir;
- rheoli gwydnwch ariannol er mwyn gallu bodloni galw na ellir ei ragweld ar wasanaethau; a
- chadw rheolaeth ariannol ar unrhyw ddatblygiadau syfrdanol ac annisgwyl yn eu sefyllfaoedd ariannol.

Mae egwyddorion penodol yn y cod yn cynnwys elfennau o Arweinyddiaeth Sefydliadol, Atebolrwydd, Tryloywder, Safonau Proffesiynol, Sicrwydd a Chynaliadwyedd.


Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol ddangos ei fod yn bodloni gofynion y Cod. Fel Swyddog Adran 151 mae arnaf Gyfrifoldeb Statudol (gyda chefnogaeth Tîm y Prif Swyddogion ac Aelodau Etholedig) i sicrhau cydymffurfiaeth â Chod Rheolaeth Ariannol CIPFA.

Yn rhan o'r adolygiad blynyddol o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, rwyf wedi adolygu ein hasesiad blaenorol o gydymffurfiaeth Sir y Fflint â'r Cod RhA CIPFA, a gallaf gadarnhau bod Sir y Fflint yn parhau i gydymffurfio â'r Cod yn y mwyafrif o feysydd.

**Serch hynny, mae'r asesiad yn cydnabod y bydd y meysydd canlynol angen adolygiad a gwelliant parhaus oherwydd yr heriau ariannol parhaus ar bob awdurdod lleol:**

- Mae absenoldeb unrhyw setliad cyllidebol dangosol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2026/27 a thu hwnt yn cyflwyno heriau ac ansicrwydd sylweddol a rhaid cael dull darbodus wrth flaenoriaethu ein gofynion cynllunio'r gyllideb ar frys.
- Yn rhan o'r uchod, mae angen diweddaru'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a chychwyn ystyried yn gynnar opsiynau ar gyfer sicrhau cyllideb gynaliadwy, yn cynnwys datblygu unrhyw gyfleoedd a nodwyd yn y Rhaglen Drawsnewid Strategol.
- Sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r broses ar gyfer rhagor o ymgysylltu â gwasanaethau o ran cymeradwyo a chyfrannu at ddatganiadau dull ar gyfer pwysau a lleihau costau.
- Adolygu a datblygu dull ymgynghori ar y gyllideb yn rhan o Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid yn y dyfodol.

# Cymharu Effeithiolrwydd Trefniadau Llywodraethu'r Cyngor




- Sgôr 3 - Tystiolaeth, ond mae'n bosibl y bydd angen camau gweithredu pellach
- Sgôr 4 - Tystiolaeth Da
- Sgôr 5 - Arfer Gorau
- Sgôr 3 - 4 Tystiolaeth Da / Efallai y bydd angen gweithredu
- Sgôr 4 - 5 Tystiolaeth Da / Arfer Gorau
- Methu â'i gyflawni oherwydd COVID
- Sgôr 2 - Ychydig o dystiolaeth ond diffyg mewn meysydd allweddol / angen camau gweithredu pellach

**Ni fydd cam gweithredu ar wahân ar gyfer y rhai a gafodd sgôr o 3-4 os yw'r mater eisoes wedi'i gwmpasu gan gamau gweithredu i fynd i'r afael â'r rhai a gafodd sgôr o 3.**

**Meysydd o Arfer Orau (Sgôr o 5):**

- **(E52)** Cydnabod manteision partneriaethau a chydweithio lle gellir cyflawni gwerth ychwanegol
- **(G92)** Croesawu her cyfoedion, adolygiadau ac archwiliadau gan gyrff rheoleiddiol a gweithredu argymhellion

**Angen Camau Gweithredu Pellach (Sgôr o 2 a 3):**

- **(A1, A2, A10)** Sicrhau bod aelodau a swyddogion yn ymddwyn yn briodol ac yn arwain diwylliant ble mae gweithredu er budd y cyhoedd yn amlwg ac yn cael ei arddangos yn gyson, gan amddiffyn enw da'r Sefydliad. Sicrhau bod aelodau'n arwain i sefydlu gwerthoedd penodol ar gyfer y sefydliad a'i staff ac yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol.
- **(B23, B26)** Annog, casglu a gwerthuso safbwyntiau a phrofiadau dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau ac ystyried buddion treth dalwyr a defnyddwyr gwasanaeth y dyfodol.
- **(C28, C31, C32, C33)** Cyflawni canlyniadau diffiniedig mewn ffordd **gynaliadwy** yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael a thrwy ystyried a chydbwyso effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gyfunol ein polisïau, cynlluniau a'n penderfyniadau wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â darpariaeth gwasanaeth. Mae gan gamau gweithredu pellach sy'n ofynnol yn Egwyddor C, gysylltiad â'r camau gweithredu a nodir o fewn Egwyddor B.
- **(D40, D43, D44, D45, D46, D47)** Ystyried a monitro risgiau sy'n wynebu pob partner tra'n cydweithio gan gynnwys risgiau a rennir. Sicrhau bod capasiti'n bodoli i gynhyrchu'r wybodaeth ofynnol i adolygu ansawdd y gwasanaeth yn rheolaidd. Sicrhau bod y broses gyllidebu'n holl-gynhwysol, gan roi ystyriaeth i gostau llawn gweithrediadau dros y tymor canolig ac yn hirdymor.
- **(E61)** Gwella'r defnydd o adnoddau drwy ddefnyddio technegau priodol fel meincnodi a dewisiadau eraill er mwyn penderfynu sut caiff adnoddau'r awdurdod eu dyrannu er mwyn cyflawni canlyniadau yn effeithiol ac effeithlon.
- **(F69, F70, F80, F81)** Gweithredu trefniadau rheoli perfformiad, rheoli data a rheoli risg cadarn ac integredig a sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol. Alinio'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Data, Fframwaith Rheoli Risg ar reolaeth fewnol gyda chyflawni amcanion y Cyngor.
- **(G83, G84, G89)** Gweithredu arferion da o ran tryloywder ac arferion da o ran adrodd

# Y Prif Themâu a nodwyd ar gyfer Gwella yn 2024/25

Mae'r Cyngor yn wynebu hyd yn oed mwy o heriau fel sefydliad, yn sgil y lefel isel o gyllid a dderbynnir a'r heriau cynyddol a wynebai mewn perthynas â gwydnwch y gweithlu. Mae'r farchnad recriwtio yn un cystadleuol ac nid yw'r Cyngor bellach yn gallu cystadlu, sy'n golygu llawer o swyddi gwag a cholli staff allweddol. Mae hyn, ochr yn ochr â phoblogaeth gynyddol sy'n heneiddio a'r galw am wasanaethau, yn her o ran a oes modd cynnig yr un lefel o wasanaeth yn ogystal â sut fedrwn ni wella gwasanaethau.

Gan roi hyn mewn cyd-destun, yn ystod 2024/25 adolygodd y Gweithgor Llywodraethu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn y 7 Egwyddor Llywodraethu Da a'r 94 o Is-Egwyddorion. Ym mis Mawrth 2025 cynhaliwyd gweithdy i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol, a'r Cabinet er mwyn iddynt adolygu sgôr y Datganiad Llywodraethu Blynyddol mewn perthynas â'r Egwyddorion Llywodraethu Da.
Ymhellach i hynny, darparwyd Holiadur Llywodraethu Blynyddol i'r Cabinet a Chadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a'r Pwyllgor Safonau, er mwyn gweld a yw'r aelodau yn cytuno â'r themâu sydd wedi'u nodi fel meysydd i'w gwella.

Y saith thema a nodwyd ar gyfer gwella yw:

- **Ymddwyn gyda chywirdeb, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith a gwella cyfleoedd hyfforddi**
    - Arwain diwylliant lle bo gweithredu er lles y cyhoedd yn weladwy ac yn cael ei arddangos yn gyson. Dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau.
    - Mae gwerthoedd yn cael eu cyflawni'n unol â Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan)
    - Prosesau gwneud penderfyniadau a herio gwell drwy hyfforddiant penodol, mae sesiynau wedi'u hwyluso ar gael i Aelodau ac Uwch Swyddogion

- **Ymgorffori'r defnydd o Asesiadau o Effaith Integredig ac ymgysylltu â dinasyddion**
    - Y Cyngor yn asesu effaith ei benderfyniadau a'i bolisïau ar grwpiau cydraddoldeb, yr amgylchedd, yr economi ac ar feysydd eraill o ddiddordeb cyn i unrhyw bolisi neu strategaeth newid.
    - Annog, casglu a gwerthuso safbwyntiau a phrofiadau dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau o wahanol gefndiroedd gan gynnwys anghenion y dyfodol
    - Rheoli disgwyliadau'n effeithiol o ran penderfynu ar flaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael

- **Cynaliadwyedd yr Adnoddau a Gwydnwch y Gweithlu**
    - Rheoli disgwyliadau gwasanaeth yn effeithiol gyda'r adnoddau sydd ar gael gyda'r holl fudd-ddeiliaid
    - Datblygu, recriwtio a chadw capasiti'r gweithlu yn dilyn adolygiad o'r model cyflogau.
    - Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y gweithlu a'r Aelodau
    - Ymgorffori moeseg a gwerthoedd o fewn y diwylliant sefydliadol a'r diwylliant gwaith.

- **Ymgorffori Rheoli Risg ar draws Bartneriaethau**
    - Ystyried a monitro risgiau sy'n wynebu pob partner wrth gydweithio gan gynnwys risgiau a rennir

- **Datblygu diwylliant data a pherfformiad ar draws y Cyngor**
  - Defnyddio gwybodaeth data a pherfformiad i reoli ac adolygu (a gwella) ansawdd gwasanaeth a darparu sicrwydd ansawdd
  - Annog her a thrafodaeth adeiladol ar bolisïau ac amcanion cyn, yn ystod ac ar ôl gwneud penderfyniadau gan wella perfformiad yr awdurdod.

- **Adolygu adroddiadau Pwyllgor**
  - Sicrhau eu bod mewn arddull sy'n ddealladwy, hawdd cael mynediad atynt a'u cwestiynu gan aelodau'r cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill.
  - Darparu digon o wybodaeth i fodloni gofynion tryloywder a gwella craffu cyhoeddus ond heb fod yn rhy drwm ac yn hawdd i ddefnyddwyr eu deall
  - Gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar ddadansoddiad a chyngor clir a gwrthrychol, gan dynnu sylw at y goblygiadau a'r risgiau.

- **Cynllunio ariannol tymor canolig a hirdymor**
  - Ystyried safbwynt hir dymor o ran gwneud penderfyniadau, gan ystyried risg a gweithredu'n dryloyw pan fo gwrthdaro posibl rhwng canlyniadau a fwriedir gan yr awdurdod a ffactorau byrdymor megis y cylch gwleidyddol neu gyfyngiadau ariannol.
  - Paratoi cyllidebau'n unol ag amcanion a strategaethau sefydliadol a'r cynllun ariannol tymor canolig.
  - Sicrhau bod y strategaeth ariannol tymor canolig yn integreiddio a chydbwyso gyda blaenoriaethau gwasanaeth, fforddiadwyedd a chyfyngiadau eraill o ran adnoddau.
  - Sicrhau bod rheolaeth ariannol yr awdurdod yn cefnogi cyflawniad canlyniadau hirdymor a pherfformiad ariannol a gweithredol byrdymor.

Canlyniad yr holiaduron a gwblhawyd gan yr Aelodau:

Roedd yr Aelodau yn cytuno gyda'r saith thema a nodwyd ar gyfer gwelliant, gan ddatgan;

- Bydd gwneud gwelliannau dan y themâu hyn yn arwain at benderfyniadau gwell ac yn siapio gwelliannau i wasanaethau
- Mae datblygu a chadw capasiti'r gweithlu yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau
- Bydd cynyddu nifer yr Asesiadau o Effaith Integredig sy'n cael eu cwblhau ac ymgysylltu â dinasyddion yn sicrhau bod Cyngor Sir y Fflint yn asesu effaith unrhyw benderfyniad a wneir
- Cytunodd pob aelod bod y Gymraeg yn hollbwysig a bod angen cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithlu
- Bydd ymgorffori Rheolaeth Risg ar draws y Partneriaethau'n galluogi'r Cyngor i nodi risgiau a chyfleoedd yn y dyfodol.
- Bydd datblygu diwylliant data a pherfformiad ar draws y Cyngor yn galluogi adolygu (a gwella) ansawdd gwasanaeth
- Bydd diwygio adroddiadau Pwyllgor yn sicrhau bod y cyd-destun yn cael ei ddarparu ond ei fod yn hawdd i bawb ei ddeall
- Nodwyd cynllunio ariannol tymor canolig a hirdymor fel agwedd allweddol ar gyfer gwella gwasanaethau ac asesu risg.

# Prif Egwyddorion y Trefniadau Llywodraethu Corfforaethol

Rydym yn bwriadu cyflawni safon lywodraethu dda drwy gadw at saith egwyddor CIPFA/Solace 2016 – Nodiadau Canllaw i Awdurdodau Cymru, sy'n ffurfio sail y Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol. Yn y rhan ganlynol, rydym wedi diffinio sut y byddwn yn cyflawni'r safon yn erbyn y saith prif egwyddor, sef:

| | |
|---|---|
| **Egwyddor A** | Ymddwyn gyda chywirdeb, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith |
| **Egwyddor B** | Sicrhau bod y Cyngor yn agored a'i fod yn ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn drylwyr |
| **Egwyddor C** | Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy |
| **Egwyddor D** | Penderfynu ar yr ymyraethau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir cystal ag sy'n bosibl |
| **Egwyddor E** | Datblygu gallu yr endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo |
| **Egwyddor F** | Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gryf |
| **Egwyddor G** | Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i ddarparu atebolrwydd effeithiol |

# Egwyddor A Ymddwyn gyda chywirdeb, dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith

| Is-egwyddorion | Sut ydym ni'n gwneud hyn / Sut ydym ni'n cyflawni hyn |
|---|---|
| **Ymddwyn gyda chywirdeb** | • Mae ymddygiad a disgwyliadau Swyddogion ac Aelodau wedi'u nodi yng Nghod Ymddygiad y Cyngor, y Cyfansoddiad, a chyfres o bolisïau a gweithdrefnau<br>• Mae Codau Ymddygiad ar gyfer Aelodau a Swyddogion yn nodi gofynion yn ymwneud â datgan cysylltiad yn ffurfiol ar ddechrau cyfarfodydd, rhoddion, lletygarwch, ac ati.<br>• Rydym yn cymryd twyll o ddifri. Mae polisïau allweddol ar waith er mwyn atal, lleihau a rheoli digwyddiadau o'r fath.<br>• Cydymffurfiaeth â pholisïau a phrotocolau e.e. Rheolau'r Weithdrefn Gontractau<br>• Proffil uwch o Archwilio Mewnol |
| **Dangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol** | • Mae cyfres o gymwyseddau arwain yn cael eu rhoi ym mhob Portffolio a'u harwain gan bob Prif Swyddog<br>• Mae ein polisi recriwtio, hyfforddi a chymwyseddau yn seiliedig ar brosesau gwerthuso'n sail i ymddygiadau personol gyda gwerthoedd moesegol<br>• Mae polisïau a gweithdrefnau cadarn ar waith, yn amodol ar gymeradwyaeth ffurfiol cyn eu mabwysiadu gan bwyllgorau ffurfiol<br>• Mae pob contract a darparwr gwasanaeth allanol, yn cynnwys partneriaethau yn ymgysylltu trwy broses gaffael gadarn ac yn dilyn rheoliadau Rheolau'r Weithdrefn Gontractau<br>• Cymhwyso'r model gweithredu corfforaethol; gweithio'n fewnol i hyrwyddo safonau uchel o berfformiad proffesiynol ac ymddygiad moesegol i gyflawni blaenoriaethau ac amcanion sefydliadol |
| **Parchu rheol y gyfraith** | • Rydym yn sicrhau bod ein Haelodau a Swyddogion yn cyflawni gofynion deddfwriaethol a rheoliadol<br>• Rydym yn sicrhau y manteisir ar bwerau llawn y Cyngor drwy her reolaidd a dilyn datblygiadau deddfwriaeth newydd i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol sydd â fframwaith Gwrth-Dwyll a Llygredigaeth Effeithiol<br>• Ein Swyddog Monitro sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r gyfraith ac yn osgoi camweinyddu. Mae ein Cyfansoddiad a'n Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn hyrwyddo safonau ymddygiad uchel a gaiff eu monitro gan y Pwyllgor Safonau. |

| Meysydd o Dystiolaeth Dda 2024/25 (Sgôr o 4) | Meysydd i'w Gwella ymhellach, 2024/25 (Sgôr o 2 a 3) |
|---|---|
| • Mae gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth ac is-egwyddorion dan Egwyddor A wrth wraidd y ffurf safonol o adrodd i'r Cyngor, y Cabinet a'r pwyllgorau | • **(A1)** Sicrhau bod aelodau a swyddogion yn ymddwyn yn briodol ac yn arwain diwylliant ble mae gweithredu er budd y cyhoedd yn amlwg ac yn cael ei arddangos yn gyson, gan amddiffyn enw da'r sefydliad<br>• **(A2)** Sicrhau bod aelodau'n arwain wrth sefydlu gwerthoedd penodol ar gyfer y sefydliad a'i staff a'u bod yn cael eu rhannu a'u deall. Dylai'r rhain ategu at Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan)<br>• **(A10)** Creu amodau i sicrhau bod swyddogion statudol, deiliaid swyddi allweddol eraill ac aelodau'n gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol. |

# Egwyddor B Sicrhau bod y Cyngor yn agored a'i fod yn ymgysylltu â budd-ddeiliaid yn drylwyr

| Is-egwyddorion | Sut ydym ni'n gwneud / cyflawni hyn |
|---|---|
| **Bod yn Agored** | • Wedi ymrwymo i fod â diwylliant agored, a ddangosir drwy wefan, polisïau a gweithdrefnau hygyrch a chyfarfodydd amgylchedd agored.<br>- Penderfynir ar yr ymyriadau / dulliau gweithredu mwyaf addas ac effeithiol drwy ddefnyddio ymgynghoriad ac ymgysylltiad ffurfiol ac anffurfiol. Egwyddorion ymgynghori<br>- Modelau ymgysylltu ffurfiol ac anffurfiol gyda gweithwyr a chymunedau e.e. gweithdai model cyflawni amgen i Aelodau<br>- Fforwm y Sir (Cynghorau Tref a Chymuned)<br>- Ymgysylltu cadarnhaol gydag Undebau Llafur yn ffurfiol ac anffurfiol |
| **Ymgysylltu'n drylwyr â budd-ddeiliaid sefydliadol** | • Rydym yn ymgysylltu'n effeithiol gyda budd-ddeiliaid i sicrhau canlyniadau llwyddiannus a chynaliadwy drwy:<br>- Gymhwyso a darparu strategaethau cyfathrebu effeithiol i gefnogi'r ddarpariaeth<br>- Targedu gohebiaeth a defnydd effeithiol o Gyfryngau Cymdeithasol (cyfyngedig ar hyn o bryd)<br>- Ymgysylltu'n effeithiol â budd-ddeiliaid ar faterion strategol<br>- Holiaduron adborth dan arweiniad gwasanaeth a digwyddiadau<br>• Mae'r Cyngor yn defnyddio adnoddau'n effeithiol ac yn cyflawni canlyniadau drwy bartneriaethau anffurfiol a ffurfiol:<br>- Amrediad helaeth o bartneriaethau i gefnogi darpariaeth blaenoriaethau strategol y Cyngor, yn cynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br>- Trefniadau partneriaeth agored a chynhyrchiol wedi'u cefnogi gan drefniadau llywodraethu effeithiol<br>- Mae ymddiriedaeth a pherthnasau da'n arwain at ganlyniadau arfaethedig e.e. trosglwyddiadau asedau cymunedol |
| **Ymgysylltu'n effeithiol â budd-ddeiliaid, gan gynnwys dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau unigol** | • Mae cyflawni'r canlyniadau arfaethedig yn cael ei gefnogi gan ystod o ganllawiau ystyrlon ar ymgysylltiad ymgynghori a thechnegau adborth gyda dinasyddion unigol, defnyddwyr gwasanaeth a budd-ddeiliaid eraill<br>• Mae gennym strwythurau yn eu lle i annog cyfranogiad cyhoeddus wedi'i lywodraethu drwy'r Polisïau Cyfathrebu a Chyfryngau Cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys yr elfennau canlynol: E-newyddlenni, gwefan y Cyngor, Fforymau Tenantiaid, Grwpiau Defnyddwyr Gwasanaeth, Cylchoedd Ansawdd, Defnydd o Ffeithluniau, Arolygon (er enghraifft Arolygon Tenantiaid a Phreswylwyr) |

| Meysydd o Dystiolaeth Dda 2024/25 (Sgôr o 4) | Meysydd i'w Gwella Ymhellach, 2024/25 (Sgôr o 3) |
|---|---|
| • Partneriaethau ffurfiol ac anffurfiol o lefelau strategol (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) i bartneriaethau gweithredol (Cronfa Waddol Gymunedol/ Partneriaeth Ranbarthol y Lluoedd Arfog)<br>• Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam a Phartneriaeth Ymchwil a Dealltwriaeth Gogledd Cymru yn parhau i weithio'n dda<br>• Perthynas reoli dda gyda phartneriaid allanol<br>• Mae cyfleoedd i drafod yn sicrhau bod y Cyngor yn derbyn barn a safbwyntiau amrywiol, sy'n cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ac yn ychwanegu gwerth go iawn. | • **(B23)** Annog, casglu a gwerthuso safbwyntiau a phrofiadau dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau o wahanol gefndiroedd gan gynnwys anghenion y dyfodol<br>• **(B26)** Ystyried buddion trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaethau'r dyfodol |

# Egwyddor C Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy

| Is-egwyddorion | Sut ydym ni'n gwneud / cyflawni hyn |
|---|---|
| **Diffinio canlyniadau** | • Mae gennym weledigaeth glir yn disgrifio pwrpas a chanlyniadau arfaethedig y sefydliad, a gyflawnir drwy:<br>- Gysylltu'r weledigaeth a bwriad gyda'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig<br>- Ystyriaeth o Gynllunio Gwasanaeth yn cynnwys cynaliadwyedd darpariaeth gwasanaeth<br>• Caiff rheoli risg ei ddefnyddio'n gyson ar bob lefel gan sicrhau defnydd cyson o'r broses risg a therminoleg<br>• Mae datblygu Cynllun Lles y Sir a darparu blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd i ychwanegu gwerth<br>• Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn cynnwys argymhellion o welliannau neu faes o flaenoriaeth gwaith ar gyfer y flwyddyn ganlynol |
| **Buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy** | • Tra'n penderfynu ar ddarpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol, rydym yn cymryd golwg tymor hwy ac yn cydbwyso effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ynghyd â budd y cyhoedd yn ehangach. Cefnogir hyn drwy:<br>- Gynllunio busnes a chyllidebu hir dymor gan ddefnyddio model rhagamcanu effeithiol<br>- Dull aml-ddisgyblaeth i ddatblygu polisi gan ddarparu canlyniadau diffiniedig a sicrhau mynediad teg at wasanaethau<br>- Mae'r strategaeth gaffael yn diffinio disgwyliadau o amgylch buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n llywio manylebau, tendrau a chontractau gwasanaeth<br>- Cynlluniau cyfathrebu ar gyfer ymgysylltiad cyhoeddus a chymunedol |

| Meysydd o Dystiolaeth Dda 2024/25 (Sgôr o 4) | Meysydd i'w Gwella Ymhellach, 2024/25 (Sgôr o 3) |
|---|---|
| • Gweithdai/sesiynau briffio i aelodau<br>• Yn ogystal â'r broses reoli gyllidebol arferol, cynhaliwyd gwaith monitro sylweddol i reoli'r gwariant / cyllid ychwanegol a dderbyniwyd / ail-ddyrannwyd i leddfu'r pwysau cyllidebol – digwyddiadau / cyfarfodydd corfforaethol gyda phortffolios ynglŷn â phwysau cyllidebol<br>• Mae Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2023-2028 yn canolbwyntio ar wella lles lleol yn yr ardal a chefnogi cyflawniad Saith Nod Lles Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. | • **(C28)** Nodi'r effaith a fwriedir ar gyfer, neu newidiadau ar gyfer, budd-ddeiliaid gan gynnwys dinasyddion unigol a defnyddwyr gwasanaeth. Gallai fod ar unwaith neu dros gyfnod o flwyddyn neu fwy.<br>• **(C31)** Rheoli disgwyliadau'n effeithiol o ran penderfynu ar flaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael<br>• **(C32)** Ystyried a chydbwyso effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gyfunol polisïau, cynlluniau a phenderfyniadau wrth wneud penderfyniadau am ddarpariaeth gwasanaethau<br>• **(C33)** Ystyried safbwynt hir dymor o ran gwneud penderfyniadau, gan ystyried risg a gweithredu'n dryloyw pan fo gwrthdaro posibl rhwng canlyniadau a fwriedir gan yr awdurdod a ffactorau byrdymor megis y cylch gwleidyddol neu gyfyngiadau ariannol. |

# Egwyddor D Penderfynu ar yr ymyraethau sy’n angenrheidiol i gyflawni’r canlyniadau a fwriedir cystal ag sy’n bosibl

| Is-egwyddorion | Sut ydym ni’n gwneud / cyflawni hyn |
|---|---|
| **Pennu ymyraethau** | • Ymgysylltu’n llawn gydag Aelodau ar sail hirdymor, e.e. Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC), Cynllun y Cyngor, Cynllunio Busnes a strategaethau gweithlu allweddol eraill e.e. digidol a chaffael<br>• Mae’r SATC a phroses gosod y gyllideb yn rhoi cyfle i’r cyhoedd, budd-ddeiliaid i ymgysylltu a bod yn rhan o ystyried opsiynau.<br>• Ymgysylltiad gweithredol wrth wneud penderfyniadau allweddol i ddatblygu syniadau cychwynnol, opsiynau a chanlyniadau a risgiau posibl e.e. Rhaglen ADM, Gateways<br>• Gwerthusiadau opsiwn clir, yn cynnwys defnyddio modelau rhagamcanu, er mwyn sicrhau y cyflawnir y gwerth gorau<br>• Monitro’r gyllideb yn rheolaidd ar gyfer pob Portffolio<br>• Defnyddio Asesiadau o Effaith Integredig |
| **Cynllunio ymyraethau** | • Rydym wedi sefydlu a gweithredu cylchedau cynllunio a rheoli cadarn yn ymwneud ag ymateb ac adferiad drwy’r Tîm Ymateb i Reoli Argyfwng<br>• Monitro cynllunio busnes, effeithlonrwydd a dibynadwyedd rheolaidd, yn cynnwys adborth<br>• Caiff perfformiad gwasanaeth ei fesur drwy sefydlu cyfres o ddangosyddion lleol, sydd yn cael eu monitro, eu hadrodd a’u defnyddio’n rheolaidd ar gyfer monitro adferiad |
| **Cyflawni’r canlyniadau a fwriedir cystal ag sy’n bosibl** | • Caiff y gofynion am adnoddau eu nodi drwy’r broses cynllunio busnes, yn cynnwys unrhyw ddiffyg a ragwelir yn y gofynion hynny.<br>• Mae ymgysylltu rheolaidd a pherchenogaeth o’r broses gyllido yn digwydd drwy Dîm y Prif Swyddog ac mewn ymgynghoriad ag Aelodau trwy weithdai a’r broses graffu<br>• Caiff gwerthoedd cymdeithasol eu cyflawni drwy gomisiynu gwasanaethau yn effeithiol a chydymffurfio â gweithdrefnau’r Cyngor<br>• Digwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu, yn benodol yn ymwneud â phenderfyniadau parhaus ar faterion cyflawni gwasanaeth neu i newidiadau yn yr amgylchedd allanol a osodir yng nghyd-destun SATC ar gyfer preswylwyr a gweithwyr |

| Meysydd o Dystiolaeth Dda 2024/25 (Sgôr o 4) | Meysydd i'w Gwella Ymhellach, 2024/25 (Sgôr o 3) |
|---|---|
| • **(D48)** Defnyddio data hanesyddol i lywio'r SATC ac edrych ymlaen o ran beth fydd y dirwedd yn y dyfodol i wasanaethau a defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â phroses gosod y gyllideb | • **(D40)** Ystyried a monitro risgiau sy'n wynebu pob partner wrth gydweithio gan gynnwys risgiau a rennir<br>• **(D43)** Sicrhau bod capasiti'n bodoli i gynhyrchu'r wybodaeth ofynnol i adolygu ansawdd y gwasanaeth yn rheolaidd.<br>• **(D44)** Paratoi cyllidebau'n unol ag amcanion a strategaethau sefydliadol a'r cynllun ariannol tymor canolig.<br>• **(D45)** Hysbysu cynllunio adnoddau tymor canolig a hirdymor drwy lunio rhagamcanion realistig o wariant refeniw a chyfalaf gyda'r nod o ddatblygu strategaeth gyllid sy'n gynaliadwy<br>• **(D46)** Sicrhau bod y strategaeth ariannol tymor canolig yn integreiddio a chydbwyso gyda blaenoriaethau gwasanaeth, fforddiadwyedd a chyfyngiadau eraill o ran adnoddau.<br>• **(D47)** Sicrhau bod y broses gyllidebu'n holl-gynhwysol, gan roi ystyriaeth i gostau llawn gweithrediadau dros y tymor canolig ac yn hirdymor. |

# Egwyddor E Datblygu capasiti ein sefydliadau, gan gynnwys gallu'r arweinwyr a'r unigolion oddi mewn iddo

| Is-egwyddorion | Sut ydym ni'n gwneud / cyflawni hyn |
|---|---|
| **Datblygu capasiti ein sefydliad** | • Rydym yn adolygu ein gweithrediadau, perfformiad a defnydd o asedau yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu heffeithiolrwydd parhaus drwy adolygiadau cyflawni gwasanaethau, perfformiad a rheoli risg a datblygu a monitro Byrddau Rhaglen.<br>• Rydym yn adolygu digonolrwydd a phriodoldeb adnoddau a ddyrannir drwy dechnegau megis meincnodi yn fewnol yn erbyn perfformiadau blaenorol a chefnogi heriau mewnol, ac yn allanol fel arfer er mwyn adnabod cyfleoedd gwelliant.<br>• Buddion cydweithio a gwaith partneriaeth yn rhanbarthol ac yn lleol i sicrhau y cyflawnir gwerth ychwanegol drwy gysylltu blaenoriaethau gwasanaethau a sefydliadau o ran gwaith partneriaeth<br>• Datblygu a chynnal cynllun y gweithle i wella dyraniad strategol adnoddau a gweithlu a chynllunio ar gyfer olyniaeth yn y dyfodol |
| **Datblygu gallu arweinwyr ein sefydliad ac unigolion eraill** | • Mae arweinyddiaeth ar y cyd effeithiol sydd yn ein galluogi i ymateb yn llwyddiannus i ofynion a risgiau allanol sy'n newid yn cael ei gefnogi gan amrywiaeth o raglenni datblygu rheolwyr ac arweinwyr, sy'n cael eu cynnal mewn partneriaeth gyda Choleg Cambria<br>- Mae gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr rolau arwain gwahanol sydd wedi'u diffinio'n glir<br>• Cefnogir gofynion unigol a sefydliadol drwy:<br>- Gyflwyniadau sefydlu corfforaethol i weithwyr newydd yn y Cyngor a chyfarfodydd sefydlu gwasanaeth penodol i weithwyr mewn swyddi newydd<br>- Cyfleoedd dysgu a datblygu parhaus ar gyfer gweithwyr<br>- Mae amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd dysgu a datblygu ar gael<br>- Adborth a dysgu a rennir i'r sefydliadau drwy adroddiadau a sesiynau rhyngweithiol fel yr 'Academi' ar gyfer Uwch Arweinwyr<br>• Cefnogi a chynnal lles corfforol a meddyliol y gweithlu, drwy ein Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol mewnol Care First (Rhaglen Cymorth i Weithwyr) ac amrywiaeth o hyfforddiant a sesiynau ymwybyddiaeth mewnol i gefnogi materion sy'n ymwneud ag iechyd meddyliol, ariannol a chorfforol. |

**Meysydd o Arfer Orau 2024/25 (Sgôr o 5)**

- **(E52)** Cydnabod manteision partneriaethau a chydweithio lle gellir cyflawni gwerth ychwanegol

**Meysydd i'w Gwella Ymhellach 2024/25 (Sgôr o 3)**

- **(E61)** Sicrhau bod strwythurau yn eu lle i annog y cyhoedd i gymryd rhan

**Meysydd o Dystiolaeth Dda, 2024/25 (Sgôr o 4)**

- Gwaith partneriaeth a chydweithio - lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Mae cyflwyniadau sefydlu penodol i wasanaeth yn parhau i ddigwydd
- Cyflawnwyd Arolwg Ymgysylltu â Gweithwyr, a oedd yn cynnwys cwestiynau iechyd a lles, gydag ymatebion yn dynodi y croesawir ymyraethau fel rhywbeth cadarnhaol. Y Strategaeth Les yn cael ei drafftio ar hyn o bryd
- Tudalen ddynodedig iechyd a lles gweithwyr ar Infonet sy'n darparu dolenni i Gynlluniau Gweithredu Lles MIND, ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr (ar gael 24/7 365 diwrnod y flwyddyn)

# Egwyddor F Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gryf

| Is-egwyddorion | Sut ydym ni'n gwneud / cyflawni hyn |
|---|---|
| Rheoli risg | • Mae gan y Cyngor fframwaith rheoli risg clir a chryno. Mae yna nifer o gofrestri risg sydd yn cael eu hadrodd yn rheolaidd sydd yn amlinellu'r risgiau y mae'r Cyngor a'i feysydd gwasanaeth yn eu hwynebu. Mae'r rhain yn cynnwys sgoriau risg presennol a sgoriau targed y risg wedi'u cefnogi gan sylwadau lliniaru |
| Rheoli perfformiad | • Mae Aelodau ac uwch reolwyr yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar berfformiad y gwasanaeth yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol a cherrig milltir amcanion adferiad<br>• Caiff yr aelodau wybodaeth glir a rheolaidd am y sefyllfa a'r goblygiadau ariannol, gan gynnwys yr effeithiau ar yr amgylchedd ac ar adnoddau |
| Rheolaeth fewnol gadarn | • Mae Archwilio Mewnol, drwy'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn rhoi barn flynyddol annibynnol a gwrthrychol i'r Cyngor, ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd rheolaeth fewnol, rheolaeth risg, trefniadau llywodraethu a pholisïau cysylltiedig y Cyngor.<br>• Rydym yn ymrwymo i fynd i'r afael â thwyll fel y nodir yn y Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth, Cynllun Ymateb i Dwyll a'r Polisi Rhannu Pryderon |
| Rheoli data | • Mae gennym gyfeiriad strategol effeithiol, cyngor a chamau monitro gwybodaeth gyda pholisïau a gweithdrefnau clir ar ddata personol, ac rydym yn darparu hyfforddiant rheolaidd i sicrhau cydymffurfiad â'r rhain.<br>• Mae gennym Brotocolau Rhannu Gwybodaeth priodol ar waith o ran yr holl wybodaeth a rennir gyda chyrff eraill.<br>• Mae ansawdd a chywirdeb y data a ddefnyddir ar gyfer gwneud penderfyniadau a monitro perfformiad yn cael eu cefnogi trwy ganllawiau gan amrywiaeth o gyrff proffesiynol.<br>• Mae Archwilio Mewnol yn adolygu ac yn archwilio ansawdd a chywirdeb y data a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau a monitro perfformiad yn rheolaidd |
| Rheolaeth ariannol gyhoeddus gryf | • Mae ein trefniadau rheolaeth ariannol yn cefnogi cyflawniad tymor hir o ganlyniadau a pherfformiad ariannol tymor byr drwy ddarparu'r SATC<br>• Gosod Darpariaeth Isafswm Refeniw i ad-dalu dyledion<br>• Cafodd integreiddio'r holl reolaeth ariannol ei adolygu fel rhan o'r prosiect moderneiddio cyllid |

| Meysydd o Dystiolaeth Dda 2024/25 (Sgôr o 4) | Meysydd i'w Gwella Ymhellach 2024/25 (Sgôr o 3) |
|---|---|
| • Cynnal adrodd a monitro perfformiad a risg yn gyson<br>• Adolygwyd a diweddarwyd y Fframwaith Rheoli Risg<br>• Swyddogaeth graffu neu oruchwylio effeithiol mewn lle sy'n darparu her adeiladol ac yn trafod ynghylch polisïau ac amcanion cyn, yn ystod ac ar ôl i benderfyniadau gael eu gwneud. | • **(F69)** Gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar gyngor a dadansoddiad gwrthrychol clir a pherthnasol gan amlygu'r goblygiadau a'r risgiau'n ymwneud â sefyllfa a rhagolygon ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol y sefydliad.<br>• **(F70)** Sicrhau bod swyddogaethau craffu neu drosolwg effeithiol ar waith sy'n annog her a thrafodaeth adeiladol ar bolisïau ac amcanion cyn, yn ystod ac ar ôl gwneud penderfyniadau gan wella perfformiad yr awdurdod a pherfformiad unrhyw sefydliad y mae'n gyfrifol amdanynt<br>• **(F80)** Adolygu ac archwilio ansawdd a chywirdeb y data a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau a monitro perfformiad yn rheolaidd<br>• **(F81)** Sicrhau bod rheolaeth ariannol yr awdurdod yn cefnogi cyflawniad canlyniadau hirdymor a pherfformiad ariannol a gweithredol byrdymor. |

# Egwyddor G Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio i ddarparu atebolrwydd effeithiol

| Is-egwyddorion | Sut ydym ni'n gwneud / cyflawni hyn |
|---|---|
| **Gweithredu arferion da o ran tryloywder** | • Rydym wedi gwella cynllun a chyflwyniad ein hadroddiadau'n ddiweddar, er mwyn gwella cyflwyniad y wybodaeth allweddol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a monitro hyn yn rheolaidd.<br>• Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r angen i roi'r hynny o wybodaeth sy'n angenrheidiol i sicrhau tryloywder<br>• Cynhaliwyd adolygiad o brotocolau rhannu gwybodaeth a mabwysiadwyd egwyddorion newydd |
| **Gweithredu arferion da wrth adrodd** | • Rydym yn adrodd o leiaf bob blwyddyn ar gyflawniad a chynnydd ein canlyniadau arfaethedig a sefyllfa ariannol. Caiff hyn ei gyflwyno drwy'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn asesu perfformiad yn erbyn Cynllun y Cyngor<br>• Cynnydd yn erbyn y Cynllun Lles<br>• Datganiad Cyfrifon Blynyddol<br>• Cyhoeddir ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn dilyn herio cadarn a llym er mwyn asesu a dangos llywodraethu da |
| **Sicrwydd ac atebolrwydd effeithiol** | • Drwy ddulliau sicrwydd cadarn, gallwn ddangos atebolrwydd effeithiol. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys:<br>- Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiadau annibynnol i roi barn sicrwydd flynyddol ar reolaeth, rheoli risg a threfniadau llywodraethu'r Cyngor. I ganiatáu hyn, mae gan Archwilio Mewnol fynediad uniongyrchol at y Prif Swyddog ac Aelodau o'r Cyngor.<br>- Mae pob cam y cytunir arno o adolygiadau Archwilio Mewnol yn cael eu monitro'n rheolaidd drwy adroddiadau misol i'r Prif Swyddogion, a phob Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.<br>- Caiff opsiynau sicrwydd 'cyfyngedig/coch' eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn llawn, a chaiff cynnydd ei fonitro'n agos<br>- Heriau cyfoedion ac archwiliadau gan gyrff rheoleiddio ac adolygiadau cydymffurfiad allanol. Defnyddir deilliannau'r archwiliadau yma i lywio a gwella darpariaeth gwasanaeth<br>- Drwy drefniadau comisiynu a monitro effeithiol a chydymffurfiad â gweithdrefnau'r Cyngor, rydym yn cael sicrwydd ar risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau drwy drydydd parti ac unrhyw risgiau trosiannol.<br>- Mae adroddiadau'n cael eu cyflwyno i'r Cabinet ac adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am adborth allanol gan waith rheoleiddiol ac adolygiadau cymheiriaid, ynghyd ag ymatebion y Cyngor |

| Meysydd o Arfer Orau 2024/25 (Sgôr o 5) | Meysydd i'w Gwella Ymhellach, 2024/25 (Sgôr o 3) |
|---|---|
| • **(G92)** Croesawu her cyfoedion, adolygiadau ac archwiliadau gan gyrff rheoleiddiol a gweithredu argymhellion | • **(G83)** Ysgrifennu a rhannu adroddiadau ar gyfer y cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill mewn arddull sy'n ddealladwy ac yn addas ar gyfer y gynulleidfa darged a sicrhau ei bod yn hawdd cael mynediad atynt a'u cwestiynu.<br>• **(G84)** Sicrhau cydbwysedd rhwng darparu digon o wybodaeth i fodloni gofynion tryloywder a gwella craffu cyhoeddus ond heb fod yn rhy drwm ac yn hawdd i ddefnyddwyr eu deall<br>• **(G89)** Sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad sy'n cyd-fynd â'r datganiadau ariannol yn cael ei baratoi yn gyson a phrydlon a bod y datganiadau'n caniatáu cymharu gyda sefydliadau tebyg eraill. |

# Sut ydym ni wedi mynd i'r afael â materion llywodraethu a strategol Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24?

Roedd Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24 yn cynnwys 15 mater llywodraethu a 29 mater strategol.  O'r meysydd yma:

- Cafodd tri mater Llywodraethu Mewnol eu cau a'u manylu yn y tabl isod;
- Mae deuddeg mater Llywodraethu Mewnol yn parhau ar agor ac wedi'u cynnwys yng nghamau gweithredu 2023/24;
- Mae pymtheg o risgiau yn aros fel risg strategol coch ac fe'u dangosir yn y Materion Strategol 2023/24
- Mae wyth risg wedi gwella ers hynny
- Mae chwe risg wedi cau

# Y diweddaraf am gynnydd Materion Llywodraethu Sylweddol a nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24

Wrth adolygu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor daethpwyd o hyd i 15 mater llywodraethu yn ystod 2023/24.  Mae manylion ynglŷn â sut yr aed i'r afael â'r risg ac os ydyw'n parhau ar agor wedi'i ddarparu isod:

| Materion Llywodraethu Mewnol y Cyngor | Camau Lliniaru | Statws Cyfredol | Y Diweddaraf am Gynnydd | Cynnydd COG |
|---|---|---|---|---|
| **(A1)** Sicrhau bod aelodau a swyddogion yn ymddwyn yn briodol ac yn arwain diwylliant ble mae gweithredu er budd y cyhoedd yn amlwg ac yn cael ei arddangos yn gyson, gan amddiffyn enw da'r sefydliad. | Cynllun gweithredu i wella Dealltwriaeth yr Aelodau o'u rôl.<br><br>Gweithdy ar gyfer Aelodau a darparu hyfforddiant a chyfleoedd dysgu perthnasol. | Agored | Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'n wirfoddol cofrestr o fuddiannau ar gyfer uwch swyddogion er mwyn bod yn fwy agored. Mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd dysgu perthnasol ar gyfer Aelodau er mwyn sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol ac yn deall eu rôl. | **Oren** |
| **(B17, B18, B21, B23, B24, B25)** Yn flaenorol, mae amgylchiadau wedi amharu ar allu'r Cyngor i ymgynghori ac ymgysylltu, ond nid y parodrwydd i wneud hynny. | Datblygwyd cynllun gweithredu i wneud gwelliannau o ran Ymgynghori ac Ymgysylltu gyda thrigolion Sir y Fflint. | Wedi cau ac eithrio **B23** | Yn dilyn adolygiad gwasanaeth ddiwedd 2022, penodwyd Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chyfathrebu newydd yn 2023.  Mae'n flaenoriaeth i ddatblygu Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu ar gyfer y Cyngor. Bwriad y strategaeth yw datblygu dull clir a chyson ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu ar draws yr holl wasanaethau, a fydd yn helpu i rannu barn cwsmeriaid yn well.  Bydd y strategaeth yn gweithredu fel pecyn gwaith i gynorthwyo gwasanaethau i ymgynghori ac ymgysylltu gyda chymunedau yn llwyddiannus. Mae gwaith wedi dechrau i wella sut mae'r Cyngor yn ymgynghori ac ymgysylltu'n fwy effeithiol e.e., trwy ddefnydd gwell o'r cyfryngau cymdeithasol a chanolbwynt ymgynghori ac ymgysylltu newydd. | **Oren** |

| Materion Llywodraethu Mewnol y Cyngor | Camau Lliniaru | Statws Cyfredol | Y Diweddaraf am Gynnydd | Cynnydd COG |
|---|---|---|---|---|
| **(C29, C32)** Cyflawni canlyniadau diffiniedig mewn ffordd gynaliadwy yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael a thrwy ystyried a chydbwyso effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gyfunol ein polisïau, cynlluniau a'n penderfyniadau wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â darpariaeth gwasanaeth. | • Adolygu'r model cyflogau<br>• Mae Asesiadau o Effaith Integredig yn cael eu defnyddio'n gyson ar draws y portffolios<br>• Adolygu'r heriau wrth reoli swyddi gweigion | Wedi cau ac eithrio **C32** | Yn sgil pwysau cyllidebol presennol a rheoli swyddi gwag, sy'n effeithio ar gynaliadwyedd (Pum Ffordd o Weithio, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) mae gwaith yn parhau o ran adolygu'r model cyflogau. Mae gweithdai wedi cael eu cynnal gydag Aelodau i adolygu dewisiadau model cyflogau a'r costau ynghlwm.<br><br>Rhaid i Asesiadau o Effaith Integredig gael eu hymgorffori ymhellach o fewn y Cyngor.<br><br>Mae datblygiad cynlluniau busnes Portffolio o fewn y System Rheoli Perfformiad yn symud ymlaen a bydd yn cynorthwyo gyda chysylltu polisïau, risgiau a chynlluniau. | **Oren** |
| **(E51, E53, E57, E61)** Gwella'r defnydd o adnoddau drwy ddefnyddio technegau priodol fel meincnodi a dewisiadau eraill er mwyn penderfynu sut caiff adnoddau'r awdurdod eu dyrannu er mwyn cyflawni canlyniadau yn effeithiol ac effeithlon. | • Datblygu'r defnydd o APSE<br>• Sgwrs datblygiad gyrfa i fod yn rhan o werthusiadau<br>• Adolygiad o Ddatblygiad Aelodau | Wedi cau ac eithrio **E61** | Hyfforddiant diweddar wedi'i ddarparu gan APSE i amlygu'r ystod o feincnodi sydd ar gael a chymorth parhaus wedi'i ddarparu i feysydd gwasanaeth allweddol. Meincnodi newydd bellach ar gael i gefnogi Newid Hinsawdd gydag APSE gyda'r Cyngor yn cyfnewid y cyfle hwn.<br><br>Sgwrs datblygiad gyrfa i fod yn rhan o werthusiadau blynyddol.<br><br>Mae adolygiad o anghenion hyfforddi a Datblygiad Aelodau wedi'i gwblhau, gyda Phwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a'r Cyfansoddiad yn goruchwylio'r broses. Mae adroddiad hyfforddi a datblygu yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor bob chwarter o leiaf. Bydd rhaglen derfynol yn nodi sesiynau / testunau a fydd yn 'orfodol', a bydd y Pwyllgor yn monitro darpariaeth a phresenoldeb y rhain (a'r holl sesiynau a gynhwysir o fewn y rhaglen). Mae hyfforddiant penodol ar gyfer Aelodau'r Pwyllgorau Craffu wedi'i ddarparu, yn ogystal â sesiynau ar Sgiliau Cadeirio sydd wedi cael eu cynnig i'r holl Aelodau, yn ogystal â thargedu Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau. **(E51, E53, E57** wedi cau ac **E61** - yn parhau yn agored yn 2023/24) | **Gwyrdd** |
| **(F66, F73,)** Cynhaliwyd adolygiad Archwilio Mewnol o'r fframwaith rheoli risg a'r gofrestr risgiau yn ystod 22/23 gan dynnu sylw at feysydd i'w gwella er mwyn adeiladu ar y fframwaith a phrosesau rheoli risg wrth symud ymlaen. | • Parhau i ymgorffori'r fframwaith rheoli risg<br>• Mae datblygiad a gweithrediad InPhase yn parhau<br>• Cyflwyno'r modiwl hyfforddiant rheoli risg ar-lein | Ar gau | Diwygiwyd y Fframwaith Rheoli Risg ac fe'i gymeradwywyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ionawr 2024, ac mae wedi'i rannu â swyddogion ac ar gael ar wefan ac Infonet y Cyngor. Mae swyddogion yn adolygu eu risgiau yn fisol gyda'r holl risgiau bellach yn cael eu trosglwyddo a'u rheoli o fewn y system rheoli perfformiad a risg. Mae modiwl e-ddysgu Rheoli Risg yn y camau terfynol, a chaiff ei gyflwyno yn Awst 2024. | **Gwyrdd** |

# Y diweddaraf am gynnydd Materion Strategol Sylweddol a nodwyd yn Natganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24

Fe wnaeth adolygiad effeithlonrwydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor nodi 29 mater strategol (risgiau coch) yn ystod 2023/24. Mae 15 risg yn parhau i fod yn risgiau strategol coch, mae wyth risg wedi gwella ers hynny a chwe risg wedi cau. Darperir y rhesymau pam fod chwe risg wedi cau a pham fod wyth risg wedi gwella, isod:

| Materion strategol yn 2023/24 sydd wedi cau | Y Diweddaraf am Gynnydd | Sgôr cyfredol |
|---|---|---|
| **CC01** – Diffyg cydymffurfio â safonau'r Gymraeg | Wedi cau o fis Ebrill 2024 gan fod y Ganolfan Gyswllt wedi'i staffio'n llawn gyda 30% yn siaradwyr Cymraeg. | WEDI CAU |
| **CF14** - Effaith colli rhenti parhaus ar y Cyfrif Refeniw Tai, yn sgil sefyllfa ariannol y tenantiaid. | Wedi cau o fis Ebrill 2024 gan fod y risg yn deillio o'r ymateb i Covid ac nid yw bellach yn risg sylweddol i'r CRT gan fod ôl-ddyledion rhent wedi sefydlogi, ac yn disgyn yn gyson dros gyfnod o 12 mis. | WEDI CAU |
| **HA06** - Effaith ar y ffrwd incwm yn sgil oedi/peidio ag adennill gordaliadau budd-dal tai | Cafodd y risg ei uno â **CF14** yn ystod y flwyddyn ariannol 2023/24 gan gau ym mis Ebrill 2024. | WEDI CAU |
| **SS29** - Mae capasiti annigonol yn y gweithlu gofal cymdeithasol (gwaith cymdeithasol a therapi galwedigaethol) yn risg i enw da'r Cyngor a'i allu i gyflawni ei swyddogaethau statudol a hanfodol gyda pharch a gofal | Risg wedi cau ym mis Medi 2023 ar gyfer y gwasanaeth cyfan, fodd bynnag mae risg agored yn parhau ar gyfer gweithlu cymwys a staff profiadol y Gwasanaethau Plant. | WEDI CAU |
| **HR24** - Newidiadau i arferion a chyfrifiadau tâl gwyliau yng ngoleuni Dyfarniad y Goruchaf Lys yn achos Harper Trust a Brazel | Risg wedi cau ym mis Mai 2024 gan fod newidiadau i gyfrifiadau a chynnydd mewn darpariaeth gwyliau blynyddol y Cyngor yn golygu bod y Cyngor yn cydymffurfio'n gyfreithiol. | WEDI CAU |
| **CPA17** - Effaith llwyth gwaith a materion AD ar weithwyr | Wedi cau ym mis Rhagfyr 2023 yn dilyn adolygiad cofrestr risg gan bortffolio'r Rhaglen Gyfalaf ac Asedau, ac mae'r risg wedi uno gyda **RCPA01** i ddod yn un risg. | WEDI CAU |
| **CPA12** - Methiant i sicrhau cytundeb newydd gydag Aura / Newydd a all arwain at oblygiadau gwasanaeth ariannol, cyfreithiol ac i enw da.<br><br>**Cod newydd o 2023/24 - RCPA12.**<br><br>Disgrifiad newydd o 2023/24 - Trefniadau cytundebol sydd angen eu hadolygu a chytuno ar Fodelau Cyflawni Amgen | Risg wedi cau ym mis Mehefin 2024 gan ei fod yn ystyried yr holl Fodelau Cyflawni Amgen. Bydd pob Model Cyflawni Amgen yn risg unigol o fewn y gofrestr risg. | WEDI CAU |

| Materion strategol coch yn 2023/24 sydd wedi gwella | Y Diweddaraf am Gynnydd | Sgôr cyfredol |
|---|---|---|
| **EY06 -** Cyllid annigonol i ddarparu'r eiddo archifau newydd<br>**Cod newydd o 2023/24 - REY06** | Mae'r risg hwn yn lleihau gan fod cynnig cyllid grant wedi cael ei dderbyn gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol er mwyn cynorthwyo gyda chostau adeiladu archif newydd ar gyfer Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru ar safle Theatr Clwyd, wedi'i gefnogi gan gyllid cyfalaf cyfatebol gan Gynghorau Sir y Fflint a Sir Ddinbych. Rhaid i'r ddau Gabinet gymeradwyo derbyn y cyllid grant yn ffurfiol. | 4 |
| **PE12 -** Goblygiadau Clefyd Coed Ynn ar gyllid ac enw da'r Cyngor oherwydd maint y broblem a'r gallu i wneud coed ar neu wrth ymyl priffyrdd a thir amwynder y Cyngor yn ddiogel, sy'n peri perygl i fywyd neu eiddo | Mae gwaith y gaeaf wedi ei gwblhau, bellach yn aros ar gyfer cyfnod arolwg yr haf. | 6 |
| **PE33 -** Atal oedi mewn datblygiadau trwy leihau effaith Ffosffadau<br>**Cod newydd o 2023/24 - RPE33** | Nid oes unrhyw oedi yn digwydd gan fod Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru bellach wedi cyhoeddi eu hadolygiad ar y cyd o drwyddedau ar gyfer Gwaith Trin Dŵr Gwastraff, lle mae gan y tri Safle Gwaith Trin Dŵr Gwastraff a effeithir yn Sir y Fflint drwydded ddilys a lle o fewn cyfyngiad y drwydded i drin mwy o ffosffadau. | 2 |
| **PE34 -** Methiant i ddiweddaru Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd y Cyngor i liniaru'r risg llifogydd i gymunedau diamddiffyn<br>**Cod newydd o 2023/24 - RPE34** | Mae strategaeth fframwaith wedi ei lunio gan weithio gydag ymgynghorwyr y Cyngor. Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r ymgynghorwyr ar ddiwedd Ebrill i adolygu'r drafft, nodi bylchau a'r wybodaeth angenrheidiol, a chynllunio ymgysylltiad yn fewnol o fewn y Cyngor a gyda budd-ddeiliaid allweddol. | 3 |
| **PE42 -** Cynnydd araf y Cynllun Datblygu Strategol yn methu gosod cyd-destun ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 2<br>**Cod newydd o 2023/24 - RPE42.** | Nid yw'r Cyngor yn rheoli cynnydd y Cynllun Datblygu Strategol, gan fod hyn gyda'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol, sydd wedi penodi cydlynydd prosiect yn ddiweddar. Mae Rheolwr y Strategaeth Gynllunio yn arwain ar lunio adroddiad cyd-destun cefndirol ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol, gan amlygu sefyllfaoedd y Cynlluniau Datblygu Lleol yng Ngogledd Cymru, targedau twf cyflogaeth a thai cronnus a pholisïau i ddatblygu cyfres gyffredin o themâu ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol. Hefyd yn llunio fframwaith amlinellol ar gyfer strwythur o sut allai'r Cynllun Datblygu Strategol edrych. | 4 |
| **SS09 -** Nifer annigonol o welyau preswyl a nyrsio i fodloni'r galw yn sgil natur fregus ac ansefydlogrwydd hirdymor y sector cartref gofal a heriau o ran recriwtio staff<br>**Cod newydd o 2023/24 - RSS09** | Rydym yn parhau i'w gweld yn anodd caffael digon o gapasiti yn allanol i allu bodloni anghenion preswyl. Fodd bynnag, rydym wedi sefydlogi'r farchnad. Bydd datblygiad Croes Atti 2 yn cynyddu ein capasiti mewnol, ac fe wnaeth y cartref sector annibynnol a gaewyd yn flaenorol, ail-agor yn Ionawr, gan ddarparu capasiti ar gyfer nyrsio EMI ac o bosibl, gofal preswyl. | 9 |

| Red Strategic issues in 2023/24 which have since closed | Progress Update | Current Score |
|---|---|---|
| **SS10 -** Capasiti annigonol i ddarparu'r lefelau o ofal i gleientiaid yn eu cartrefi ac yn y gymuned yn sgil heriau recriwtio gweithwyr gofal uniongyrchol ac ansefydlogrwydd y farchnad ofal. **Cod newydd o 2023/24 - RSS10.** | Mae'r mewnflwch gofal cartref yn parhau'n uchel gydag unigolion yn gorfod aros am ofal mewn rhai achosion. Rydym wedi bod yn llwyddiannus yn prynu contract oriau bloc yn Nhreffynnon, ac yn edrych ar feysydd eraill lle mae gofal yn anodd ei gaffael; mae mynegiannau o ddiddordeb ar gyfer contractau oriau bloc yn mynd allan i'r Fframwaith. Mae datblygiad parhaus Meicro-ofal yn helpu i liniaru'r sefyllfa; mae 7 gofalwyr-meicro ychwanegol wedi'u sefydlu yn ystod y flwyddyn ariannol hon, gan gynyddu'r nifer o Ofalwyr-meicro i 38. Rydym wedi comisiynu'n uniongyrchol gyda 3 darparwr Meicro-Ofal eleni ar gyfer gwasanaethau gofal personol, a 4 ar gyfer gwasanaethau lles, ac rydym yn chwilio i ddatblygu mwy o gomisiynu uniongyrchol. | **9** |
| **HR09 -** Gall y model tâl a'r costau cysylltiedig gynyddu/ gostwng yn dibynnu ar pa bryd a) y cyrhaeddir cytundeb a b) phryd fydd y model tâl newydd yn cael ei weithredu yn sgil newidiadau mewn strwythur a/neu gyfrifiad pennau. **Cod newydd o 2023/24 - RHR09** | Mae nifer o fodelau tâl wedi cael eu datblygu a'u costio (ac eithrio swyddi gwag). Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddilysu swyddi gwag gwirioneddol (gyda chyllideb) rhwng AD a Chyllid. Mae'r Cabinet/Cyngor wedi hysbysu nad oes cyllideb wedi'i nodi ar gyfer y ffrwd waith hon. | **9** |

# Beth yw'r materion **Llywodraethu** a nodwyd yn ystod 2024/25?

Wrth adolygu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor daethpwyd o hyd i 23 mater llywodraethu mewnol yn ystod 2024/25. Mae manylion ynglŷn â sut yr aed i'r afael â'r mater ac os ydyw'n parhau ar agor wedi'i ddarparu isod. Mae'r meysydd gwelliant newydd a nodwyd yn ystod 2024/25 wedi'u hamlygu'n **goch**:

| Materion Llywodraethu Mewnol y Cyngor ar gyfer 2024/25 | Camau Lliniaru |
|---|---|
| • **(A1)** Sicrhau bod aelodau a swyddogion yn ymddwyn yn briodol ac yn arwain diwylliant ble mae gweithredu er budd y cyhoedd yn amlwg ac yn cael ei arddangos yn gyson, gan amddiffyn enw da'r sefydliad<br>• (A2) Sicrhau bod aelodau'n arwain wrth sefydlu gwerthoedd penodol ar gyfer y sefydliad a'i staff a'u bod yn cael eu rhannu a'u deall. Dylai'r rhain ategu at Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan)<br>• (A10) Creu amodau i sicrhau bod swyddogion statudol, deiliaid swyddi allweddol eraill ac aelodau'n gallu cyflawni eu cyfrifoldebau yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol. | • Parhau i amlygu rôl a chyfrifoldebau Aelodau<br>• Gweithdy ar gyfer Aelodau (pan fo angen)<br>• Parhau i ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd dysgu perthnasol Dyluniwyd y sesiynau sy'n cael eu cynnal gan CLILC ddechrau mis Mehefin i gynorthwyo i wella dealltwriaeth o rolau swyddogion a Chynghorwyr. Bwriad y sesiynau yw archwilio a gwella perthnasoedd rhwng swyddogion a Chynghorwyr. |
| • **(B23)** Annog, casglu a gwerthuso safbwyntiau a phrofiadau dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a sefydliadau o wahanol gefndiroedd gan gynnwys anghenion y dyfodol<br>• **(B26)** Ystyried buddion trethdalwyr a defnyddwyr gwasanaethau'r dyfodol | • Datblygu canolbwynt ymgynghori ac ymgysylltu<br>• Creu Strategaeth Cwsmeriaid ac Ymgysylltu a Chyfranogiad y Cyhoedd<br>• Datblygu llwyfannau cyfryngau cymdeithasol (Mae Facebook eisoes wedi ei ddatblygu)<br>• Defnyddio cwynion ac adborth i wella gwasanaethau'r Cyngor |
| • **(C28)** Nodi'r effaith a fwriedir ar gyfer, neu newidiadau ar gyfer, budd-ddeiliaid gan gynnwys dinasyddion unigol neu ddefnyddwyr gwasanaeth. Gallai fod ar unwaith neu dros gyfnod o flwyddyn neu fwy.<br>• **(C31)** Rheoli disgwyliadau'n effeithiol o ran penderfynu ar flaenoriaethau a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael<br>• **(C32)** Ystyried a chydbwyso effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gyfunol polisïau, cynlluniau a phenderfyniadau wrth wneud penderfyniadau am ddarpariaeth gwasanaethau<br>• **(C33)** Ystyried safbwynt hir dymor o ran gwneud penderfyniadau, gan ystyried risg a gweithredu'n dryloyw pan fo gwrthdaro posibl rhwng canlyniadau a fwriedir gan yr awdurdod a ffactorau byrdymor megis y cylch gwleidyddol neu gyfyngiadau ariannol. | • Adolygu'r model cyflogau<br>• Defnyddio Asesiadau o Effaith Integredig yn gyson ar draws y portffolios<br>• Adolygu'r heriau wrth reoli swyddi gweigion<br>• Datblygu Nodyn Canllaw ar gyfer Cynigion - angen rhagor o wybodaeth gan Swyddogion ac effaith hyn ar y Swyddogion.<br>• Hyfforddiant i Aelodau |

| Materion Llywodraethu Mewnol y Cyngor ar gyfer 2024/25 | Camau Lliniaru |
|---|---|
| • **(D40)** Ystyried a monitro risgiau sy'n wynebu pob partner wrth gydweithio gan gynnwys risgiau a rennir<br>• **(D43)** Sicrhau bod capasiti'n bodoli i gynhyrchu'r wybodaeth ofynnol i adolygu ansawdd y gwasanaeth yn rheolaidd.<br>• **(D44)** Paratoi cyllidebau'n unol ag amcanion a strategaethau sefydliadol a'r cynllun ariannol tymor canolig.<br>• **(D45)** Hysbysu cynllunio adnoddau tymor canolig a hirdymor drwy lunio rhagamcanion realistig o wariant refeniw a chyfalaf gyda'r nod o ddatblygu strategaeth gyllid sy'n gynaliadwy<br>• **(D46)** Sicrhau bod y strategaeth ariannol tymor canolig yn integreiddio a chydbwyso gyda blaenoriaethau gwasanaeth, fforddiadwyedd a chyfyngiadau eraill o ran adnoddau.<br>• **(D47)** Sicrhau bod y broses gyllidebu'n holl-gynhwysol, gan roi ystyriaeth i gostau llawn gweithrediadau dros y tymor canolig ac yn hirdymor. | • **(D37)** Gweithredu'r argymhellion a nodir o fewn Archwilio Cymru o ran y Defnydd o wybodaeth Perfformiad: Safbwyntiau a Chanlyniadau Defnyddwyr Gwasanaeth. Adolygiad canol cyfnod Cynllun y Cyngor (2023-28) i sicrhau ystyriaeth o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth<br>• **(D40)** Wrth weithio gyda phartneriaid ac yn gydweithredol, bod risgiau (a chyfleoedd hefyd) yn cael eu harchwilio yn gyson.<br>• **(D43)** Fel rhan o adolygiad Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a Data, archwilio sut y gellir defnyddio data / cyflwyno data fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau a monitro perfformiad.<br>• **(D44, D45, D46, D47)** bydd Cynllun diwygiedig y Cyngor yn cefnogi nodi'r adnoddau sydd eu hangen o fewn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gyda'r nod o ragamcanu gofynion cyllid ymhellach a sut y gall gwybodaeth am berfformiad gefnogi hyn. |
| • **(E61)** Sicrhau bod strwythurau yn eu lle i annog y cyhoedd i gymryd rhan | • Mae'r camau lliniaru ar gyfer materion llywodraethu mewnol ar gyfer **E51** yr un fath ar gyfer **B17, B18, B21, B23, B24, B25, B26** |
| • **(F69)** Gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar gyngor a dadansoddiad gwrthrychol clir a pherthnasol gan amlygu'r goblygiadau a'r risgiau'n ymwneud â sefyllfa a rhagolygon ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol y sefydliad.<br>• **(F70)** Sicrhau bod swyddogaethau craffu neu drosolwg effeithiol ar waith sy'n annog her a thrafodaeth adeiladol ar bolisïau ac amcanion cyn, yn ystod ac ar ôl gwneud penderfyniadau gan wella perfformiad yr awdurdod a pherfformiad unrhyw sefydliad y mae'n gyfrifol amdanynt<br>• **(F80)** Adolygu ac archwilio ansawdd a chywirdeb y data a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau a monitro perfformiad yn rheolaidd<br>• **(F81)** Sicrhau bod rheolaeth ariannol yr awdurdod yn cefnogi cyflawniad canlyniadau hirdymor a pherfformiad ariannol a gweithredol byrdymor. | • Parhau i ymgorffori'r Fframwaith Rheoli Risg<br>• Cyflawni adolygiad blynyddol o'r fframwaith rheoli risg<br>• Datblygu ymhellach ar adrodd risgiau o fewn y system rheoli perfformiad a risg<br>• Adroddiadau i'w cyflwyno i'r Pwyllgorau o'r Hydref 2024<br>• Cyflwyno'r modiwl e-ddysgu hyfforddiant rheoli risg ar-lein Awst 2024 ac i'r aelodau ym mis Gorffennaf 2025<br>• Gweithredu'r Fframwaith Rheoli Perfformiad<br>• Adolygu arddull adroddiadau i aelodau |
| • **(G83)** Ysgrifennu a rhannu adroddiadau ar gyfer y cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill mewn arddull sy'n ddealladwy ac yn addas ar gyfer y gynulleidfa darged a sicrhau ei bod yn hawdd cael mynediad atynt a'u cwestiynu.<br>• **(G84)** Sicrhau cydbwysedd rhwng darparu digon o wybodaeth i fodloni gofynion tryloywder a gwella craffu cyhoeddus ond heb fod yn rhy drwm ac yn hawdd i ddefnyddwyr eu deall<br>• **(G89)** Sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad sy'n cyd-fynd â'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn gyson a phrydlon a bod y datganiadau'n caniatáu cymharu gyda sefydliadau tebyg eraill. | • **(G83, G84)** Adolygu arddull adroddiadau i aelodau<br>• **(G89)** Mae Cyllid Corfforaethol yn archwilio sut y gellir gwella dangosyddion perfformiad, yn enwedig o ran meincnodi. |

| Materion Llywodraethu Mewnol y Cyngor ar gyfer 2024/25 | Camau Lliniaru |
|---|---|
| • Archwiliad Sicrwydd Coch / Cyfyngedig - Rheoli Asedau Cymunedol a Hamdden | • Cafodd Cynllun Gweithredu llawn ei lunio a chaiff ei rannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ionawr 2025 |
| • Archwiliad Sicrwydd Coch / Cyfyngedig - Rheoli Plâu | • Cafodd Cynllun Gweithredu llawn ei lunio a chaiff ei rannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin 2025 |
| • Archwiliad Sicrwydd Coch / Cyfyngedig - Gwariant Asiantaeth Oddi ar y Matrics | • Cafodd Cynllun Gweithredu llawn ei lunio a chaiff ei rannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin 2025 |
| • Archwiliad Sicrwydd Coch / Cyfyngedig - Gostyngiadau Costau Cyllidebol | • Cafodd Cynllun Gweithredu llawn ei lunio a chaiff ei rannu gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin 2025 |

# Beth yw'r materion **Strategol** a nodwyd yn ystod 2024/25?

Wrth adolygu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor daethpwyd o hyd i 14 mater strategol (Risgiau Corfforaethol) ar gyfer 2024/25. Mae manylion ynglŷn â sut yr aed i'r afael â'r materion wedi'i ddarparu isod:

| Materion Strategol ar gyfer 2024/25 | Camau Lliniaru | Sgôr cyfredol[1] | Sgôr Darged |
|---|---|---|---|
| **RCF01 – Cronfeydd wrth gefn**<br>Bydd diffyg arian wrth gefn yn effeithio ar wydnwch ariannol y Cyngor | • Monitro ac adrodd ar sefyllfa ariannol y sefydliad yn rheolaidd<br>• Ymgysylltu parhaus gyda Chymdeithas Trysoryddion Cymru a CLILC ac uwchgyfeirio materion allweddol<br>• Sicrhau bod lefelau digonol o gronfeydd wrth gefn yn cael eu cynnal ar draws y Cyngor<br>• Adolygiad parhaus o gronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi | 16 | 4 |
| **RCF08 – Twyll ac Atal**<br>Efallai y bydd y Cyngor yn destun twyll o ffactorau mewnol ac allanol | • Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth, Polisi Rhannu Pryderon a'r Cynllun Ymateb i Dwyll.<br>• Mae rheolyddion allweddol yn bodoli o fewn y systemau ariannol allweddol<br>• Cyfranogi yn y Fenter Dwyll Genedlaethol | 6 | 6 |
| **RCF09 – Buddsoddiad Cyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai**<br>Mae diffyg cyllid digonol i fodloni targedau Safon Ansawdd Tai Cymru 2.0 | • Mae'r maes gwasanaeth a chyllid yn gweithio i asesu effaith ariannol a dewisiadau lliniaru, adrodd y canfyddiadau i'r Uwch Dîm Rheoli, y Bwrdd Rhaglen a Thîm y Prif Swyddogion.<br>• Llwybrau Ynni Targed ar gyfer yr holl stoc i'w cwblhau | 15 | 10 |
| **RCF18 – Strategaeth Ariannol Tymor Canolig**<br>Cynnydd yn y galw am wasanaeth, chwyddiant uchel a Setliadau Gostyngedig Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn gallu effeithio ar sefydlogrwydd y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. | • Monitro'r effaith ariannol yn rheolaidd ar draws y sefydliad<br>• Trefniadau cynllunio ariannol cadarn ac amserol dros y tymor canolig<br>• Cyfraniad parhaus i'r drafodaeth genedlaethol ar fformiwla gyllid sy'n decach.<br>• Ymgysylltu parhaus gyda Chymdeithas Trysoryddion Cymru a CLILC a rhannu materion allweddol<br>• Sicrhau bod lefelau digonol o gronfeydd wrth gefn yn cael eu cynnal ar draws y Cyngor | 20 | 9 |
| **REY01 – Hyfywedd Ariannol Ysgolion**<br>Nid yw ysgolion yn ariannol hyfyw oherwydd cyllid sylfaenol annigonol | • Rheoli'r gostyngiad mewn diffyg cyllidebol ysgolion yn fwy effeithlon<br>• Cyfarfodydd herio a chefnogi gyda Phennaeth/Rheolwr Busnes yr ysgol a sesiynau monitro'r gyllideb rheolaidd gydag ysgolion i sicrhau eu bod yn cadw at y protocol diffygion trwyddedig, gyda diffyg cydymffurfiaeth yn arwain at weithdrefnau ffurfiol o dan brotocol Diffyg Trwyddedig Ysgolion.<br>• Cyfarfodydd Grŵp Monitro Perfformiad Ariannol i adolygu perfformiad a chytuno ar gynllun gweithredu gyda chamau gweithredu penodol a therfynau amser i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.<br>• Trefnu / cymeradwyo adolygiad o Fformiwla Gyllid Disgyblion Ysgol drwy Fforwm Cyllidebau Ysgolion i sicrhau y dyrennir y cyllidebau sylfaenol yn y modd gorau posibl.<br>• Mecanweithiau cymeradwyo'r awdurdod lleol ar gyfer recriwtio staff mewn ysgolion sydd â diffyg ariannol | 20 | 15 |

[1] Mae sgôr darged ar gyfer rhai risgiau strategol yn statws COG coch yn sgil natur y risg ei hun

| Materion Strategol ar gyfer 2024/25 | Camau Lliniaru | Sgôr cyfredol[1] | Sgôr Darged |
|---|---|---|---|
| **RGV01 – Colli TG / Seiberddiogelwch**<br>Achos difrifol o golli data corfforaethol a systemau oherwydd digwyddiad diogelwch / amgylcheddol / technegol | • Adolygu a phrofi'r Cynllun Adfer Trychineb TG yn rheolaidd.<br>• Adolygiad llawn o bolisïau diogelwch TG<br>• Cofrestru gyda CymruSOC | 20 | 12 |
| **RHC09 - Adnoddau i gwrdd â Rhwymedigaethau Digartrefedd**<br>Nid yw'r Cyngor yn gallu cwrdd â'i oblygiadau digartrefedd statudol oherwydd prinder staff, pwysau cyllidebol a diffyg llety | • Cyflawni gwaith ailstrwythuro'r Gwasanaeth Tai ac Atal (fel y cefnogwyd gan y Cabinet ym mis Hydref 2024) i gynyddu capasiti o fewn y gwasanaeth.<br>• Gweithredu ystod o ddewisiadau amgen ar gyfer gwestai a llety gwely a brecwast fel llety i'r digartref (fel y cefnogwyd gan y Cabinet ym mis Hydref 2024)<br>• Adolygiad ariannol misol o'r cyllidebau er mwyn monitro gwariant presennol a rhagamcan o bwysau yn y flwyddyn ac yn y dyfodol<br>• Monitro defnydd llety brys gyda'r bwriad o hysbysu'r gweithlu, gweithgareddau symud ymlaen a chynllunio llety pobl ddigartref yn fisol.<br>• Rhagamcanu a Chynllunio'r Gyllideb: Gweithredu dulliau rhagweld sy'n fwy cadarn i ragweld y galw am lety a dyrannu'r adnoddau gofynnol ymlaen llaw<br>• Partneriaethau â Darparwyr Tai: Archwilio partneriaethau strategol gyda darparwyr tai'r sector preifat i ehangu'r gofodau gwely sydd ar gael fel llety dros dro.<br>• Adolygu ac addasu contractau: Trafod contractau llety sy'n fwy hyblyg gyda darparwyr gwasanaeth i reoli'r newid mewn galw, gan sicrhau y rheolir y costau | 20 | 12 |
| **RHR29 - Recriwtio a Chadw**<br>Diffyg gallu i ddenu a chadw gweithwyr gwerthfawr | • Darparu templed cynllunio'r gweithlu i'w ddefnyddio ar draws y sefydliad<br>• Gweithredu model cyflogau newydd sy'n gynaliadwy ac yn cydymffurfio.<br>• Cynnal tâl cystadleuol a gwobrwyo, a thelerau ac amodau cyflogaeth.<br>• Hyrwyddo Rhaglen Cymorth Gweithwyr y Cyngor i gynyddu defnydd. | 9 | 2 |
| **RHR30 - Costau'n ymwneud â Chyflogaeth**<br>Costau cynyddol yn gysylltiedig ag adnoddau dros dro / ychwanegol ar gyfer y gweithlu o ganlyniad i swyddi gwag, absenoldeb salwch ac ati (er enghraifft, goramser, oriau ychwanegol, costau asiantaeth) | • Gweithredu model cyflog newydd sy'n gynaliadwy ac yn cydymffurfio.<br>• Cynnal tâl cystadleuol a gwobrwyo, a thelerau ac amodau cyflogaeth. | 12 | 6 |
| **RPE11 - Nod Carbon Sero Net**<br>Fforddiadwyedd cyflawni nod carbon sero net y Cyngor. Diffyg gallu i ymrwymo neu ddenu adnoddau digonol i gydlynu'r rhaglen a chyflawni prosiectau, gan arwain at gyfleoedd na wneir y mwyaf ohonynt, camau gweithredu heb eu cyflawni a buddion heb eu gwireddu. | • Ceisio canfod cyllid allanol gan ddefnyddio'r strategaeth newid hinsawdd a chynllun gweithredu fel naratif<br>• Cyflwyno ceisiadau cyllid allanol cryf a chydlynol, gan gydweithio ar draws y rhanbarth a rhwng yr adrannau o fewn y Cyngor<br>• Ceisio cyflwyno mewnbwn cynnar i'r Cyllidebau ar gyfer refeniw a chyfalaf ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol a chynnal deialog parhaus o ran cynlluniau ariannol tymor canolig i hirdymor i sicrhau ymrwymiad tuag at gyllido nodau carbon.<br>• O ran penderfyniadau a blaenoriaethu ar draws y Cyngor, cyflwyno hyfforddiant llythrennedd carbon i rai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol ar draws y Cyngor gan alluogi swyddogion i ystyried effeithiau carbon yn y camau cynnar wrth ddatblygu prosiectau er mwyn sicrhau digon o ddarpariaeth mewn cynigion cyllid mewnol ac allanol.<br>• Bydd gweithredu costau cyfnod oes mewn achosion busnes yn nodi costau hirdymor a buddion y cynlluniau. | 6 | 2 |

| Materion Strategol ar gyfer 2024/25 | Camau Lliniaru | Sgôr cyfredol[1] | Sgôr Darged |
|---|---|---|---|
| **RPE46 - Effaith Newid Hinsawdd**<br>Diffyg gallu'r Cyngor i nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig ag effaith newid hinsawdd, gan achosi risg i wydnwch gwasanaethau'r Cyngor a'i gymunedau a'r gallu i addasu i newid hinsawdd | • Mae'r Cyngor wedi cyflawni nifer o bethau er mwyn lliniaru'r hinsawdd, ond mae effaith newid hinsawdd yn dod i'r amlwg heddiw, a bydd yn cynyddu dros amser. Bydd asesiad risg hinsawdd ac addasu a chynllun gweithredu'n cael eu cwblhau, gan gynnwys nifer o fudd-ddeiliaid, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn wydn i'r newid. | 3 | 3 |
| **RSS54 - Cynaliadwyedd Darpariaeth Gofal**<br>Digonolrwydd lleoliadau / sefydlogrwydd y farchnad yn arwain at ddarpariaeth gofal annigonol ac nad yw'n fforddiadwy | • Parhau i lobïo Llywodraeth Cymru i wella setliad ariannol Sir y Fflint, i gefnogi sefydlogrwydd y farchnad a digonolrwydd lleoliadau ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion.<br>• Defnyddio teclyn meincnodi ffioedd gofal CareCubed i weithio gyda darparwyr gofal i ddeall eu costau a risgiau o safbwynt cynaliadwyedd parhaus.<br>• Agor 12 o welyau ailalluogi newydd yng Nghartref Gofal Preswyl Tŷ Croes Atti.<br>• Mae'r Tîm Cefnogi Aml-asiantaeth yn gweithio gyda theuluoedd pobl ifanc ar ymyl gofal i atal chwalfa mewn lleoliad/ teuluoedd a lleihau'r angen am leoliadau brys heb eu cofrestru.<br>• Archwilio'r posibilrwydd o leoli ystafelloedd dosbarth symudol ar safleoedd ysgolion arbenigol i gynyddu'r capasiti ar gyfer lleoliadau addysgol, gan leihau'r angen am leoliadau y tu allan i'r Sir.<br>• Dechrau gwaith gadael gofal drwy banel aml-asiantaeth.<br>• Gwneud y gorau o'r opsiynau tai lleol.<br>• Mynd i'r afael â chamfanteisio drwy'r grŵp Strategaethol a Gweithredol MET (Ar Goll, Camfanteisio, Masnachu)<br>• Datblygu polisïau a dulliau i ddenu gofalwyr maeth newydd ac ymestyn y math o leoliadau a gynigir.<br>• Gweithio gyda darparwyr lleol i ail-lunio'r farchnad breswyl | 12 | 4 |
| **RST07 - Cynnydd mewn Gwastraff Gweddilliol**<br>Diffyg gallu i gyflawni targedau ailgylchu cenedlaethol | • Lleihau amlder casgliadau gwastraff gweddilliol ymyl palmant o bob pythefnos (90 litr yr wythnos) i bob tair wythnos (60 litr yr wythnos).<br>• Cyflwyno polisi gwastraff gweladwy yn y canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref i leihau nifer yr eitemau y gellir eu hailgylchu sy'n cael eu cyflwyno i'r ffrwd gwastraff gweddilliol | 12 | 2 |
| **RST78 - Cyflwr Rhwydwaith Priffyrdd**<br>Er y ceir arolygon rheolaidd a nodi diffygion, mae cyflwr y rhwydwaith wedi gwaethygu, ac mae'r amser a gymerir i drwsio diffygion yn aml yn rhagori ar y polisi presennol neu unrhyw derfynau amser derbyniol. Mae'r oedi'n arwain at nifer helaeth o hawliadau trydydd parti yn dilyn digwyddiadau ar y rhwydwaith, a thalu symiau ariannol sylweddol. Mae prosesau rheoli asedau yn eu lle i nodi a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â diogelwch y cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r gyfradd ar gyfer trwsio a'r amser a gymerir i atgyweirio diffygion a nodwyd yn aml y tu hwnt i'r terfynau amser derbyniol, gan gynyddu'r risg y bydd damweiniau ac anafiadau. | • Cynhaliaeth Ragweithiol<br>• Gweithredu strategaeth ragweithiol i nodi ac atgyweirio diffygion cyn iddynt ddatblygu'n beryglon sylweddol.<br>• Rheoli Hawliadau'n Well<br>• Gwella'r broses o reoli hawliadau i amddiffyn yn erbyn hawliadau anghyfiawn a lleihau dyledion ariannol<br>• Tynnu sylw at ddiffygion mewn hawliadau amddiffynnol a nodi tueddiadau.<br>• Dyrannu adnoddau - Dyrannu adnoddau'n effeithiol i sicrhau bod y gwaith atgyweirio'n brydlon ac effeithlon, gan flaenoriaethu ardaloedd risg uchel<br>• Cyfathrebu Cyhoeddus - Gwella cyfathrebu gyda'r cyhoedd o ran ymdrechion cynnal a chadw parhaus a mesurau diogelwch | 12 | 4 |

# Ardystiad

Mae'r adolygiad yn rhoi sicrwydd cyffredinol dda bod trefniadau Cyngor Sir y Fflint yn parhau i fod yn addas i'r diben yn unol â gofynion fframwaith llywodraethu ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae cyfleoedd i gynnal a datblygu trefniadau llywodraethu'r Cyngor wedi'u nodi drwy'r adolygiad hwn. Rydym yn addo ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r materion hyn dros y flwyddyn sydd i ddod a byddwn yn monitro eu gweithredu a'u gweithrediad fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

Llofnodwyd ar ran Cyngor Sir y Fflint:



Neal Cockerton
**Prif Weithredwr**



Cllr. Dave Hughes
**Arweinydd y Cyngor**